Fersiwn	8
Dyddiad Diwygio Diwethaf	Mawrth 2023



Iechyd a Diogelwch 5

Polisi Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.
This document is available in English

RHONDDA CYNON TAF

RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	**Polisi Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)**
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif ffôn	01443 425524
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	Mai 1996
Swyddog Adolygu	Stephen Humphreys
Dyddiad Diwygio	Mawrth 2025
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	2008
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Mai 1996	Gerwyn Hogben
Gorffennaf 2002	Gerwyn Hogben
Chwefror 2010	Mike Murphy
Ebrill 2012	Mike Murphy
Ionawr 2014	Mike Murphy
Gorffennaf 2016	Mike Murphy
Gorffennaf 2018	Mike Murphy
Mawrth 2021	Mike Murphy
Mawrth 2023	Stephen Humphreys
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo:
Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol	
Carfan y Rheolwyr Corfforaethol	
Cabinet	

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD 1
2. DATGANIAD POLISI 1
CANLLAWIAU POLISI 2
3. RHOI GWYBOD AM DDIGWYDDIADAU A DAMWEINIAU 2
4. EITHRIADAU 3
5. CANLLAWIAU 4
6. COFNODION 4
7. CYNGOR 5
Iechyd a Diogelwch 5 6
RHESTR WIRIO I REOLWYR 6

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r polisi yma wedi cael ei baratoi er mwyn bodloni gofynion Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

1.2 Ac yntau'n gyflogwr, mae RIDDOR yn ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor nodi anafiadau, clefydon galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodol o ganlyniad i'w waith neu mewn perthynas ag ef (h.y. cysylltiedig â'r gwaith). Rhaid iddo roi gwybod amdanyn nhw i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) o fewn amserlenni penodol.

1.3 Mae modd gweld yr holl ofynion o ran rhoi gwybod i'r Gweithgor yn RIDDOR.

1.4 Mae'r adroddiadau yn galluogi'r HSE i nodi ble a sut mae risgiau yn codi, i ymchwilio i ddamweiniau difrifol a datblygu canllawiau i weithwyr sy'n helpu osgoi digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.

Yn ogystal â hynny, mae'r adroddiadau yn rhoi gwybodaeth i'r Cyngor sy'n ei gynorthwyo i reoli risgiau i iechyd a diogelwch. Maen nhw'n ategu asesiadau risg ac mae hyn yn ei dro yn cyfrannu at ddatblygu dulliau o ddileu risgiau gan osgoi anafiadau a salwch. O ganlyniad iddyn nhw, caiff costau yn sgil damweiniau eu lleihau.

1.5 Gall y Gweithgor Iechyd erlyn y Cyngor am beidio â chydymffurfio â RIDDOR, felly mae'n hollbwysig y caiff gofynion RIDDOR eu bodloni.

2. DATGANIAD POLISI

2.1 Mae'r polisi yma yn amlinellu cyfrifoldebau gweithwyr o ran cofnodi digwyddiadau a damweiniau cysylltiedig â'r gwaith ac o ran adrodd arnyn nhw.

2.2 Cyfrifoldeb pob Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth yw rhoi darpariaethau'r polisi yma ar waith a pharatoi strategaeth weithredu.

CANLLAWIAU POLISI

3. RHOI GWYBOD AM DDIGWYDDIADAU A DAMWEINIAU

3.1 Mae RIDDOR yn ei gwneud yn ofynnol i 'berson cyfrifol' roi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau y mae modd rhoi gwybod amdanyn nhw i'r Gweithgor.

Yn ystod oriau gwaith arferol, Swyddogion Iechyd a Diogelwch y Cyngor yw'r 'bobl gyfrifol' at y diben yma.

Y tu allan i oriau gwaith arferol, er enghraifft dros y penwythnos neu ar Wŷl y Banc, y goruchwyliwr neu reolwr perthnasol fydd y 'person cyfrifol'.

3.2 Mae'r Garfan Iechyd a Diogelwch wedi paratoi canllaw cynhwysfawr ar ofynion adrodd RIDDOR o'r enw 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) – Canllawiau ar Drefniadau Adrodd ar Ddamweiniau' ('Canllawiau RIDDOR y Cyngor' o hyn ymlaen).

3.3 Cyfrifoldeb pob goruchwyliwr a rheolwr yw darllen a deall eu dyletswyddau o ran adrodd yng Nghanllawiau RIDDOR y Cyngor ac o ran ymgymryd â nhw yn y ffordd gywir.

3.4 Cyfrifoldeb pob goruchwyliwr a rheolwr yw rhoi gwybod i'w staff am eu cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau.

3.5 Yn dilyn pob digwyddiad/damwain cysylltiedig â'r gwaith, rhaid i'r goruchwyliwr/rheolwr perthnasol gwblhau Ffurflen Cofnod Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed HS5(A) y Cyngor ('Ffurflen HS5(A)' o hyn ymlaen). Rhaid ei blaenyrru i'r Garfan Iechyd a Diogelwch yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor sydd wedi'u nodi yng Nghanllawiau RIDDOR y Cyngor.

Rhaid gwneud hyn hyd yn oed pan fo goruchwyliwr neu reolwr perthnasol wedi rhoi gwybod am y digwyddiad/damwain i'r Gweithgor oherwydd y digwyddodd y tu allan i oriau gwaith arferol. Mewn achos o'r fath, dylai hyn gael ei nodi'n glir ar y Ffurflen HS5(A).

3.6 Mae canllaw ar gael ar gyfer llenwi'r ffurflen HS5(A) yn nogfen

HS5(B) y Cyngor, sef, 'Canllaw ar gyfer Llenwi'r Ffurflen Cofnod Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed'.

3.7 Pan fydd digwyddiad/damwain y tu allan i oriau gwaith arferol, gallai fod angen rhoi manylion i'r Garfan Iechyd a Diogelwch dros y ffôn yn y lle cyntaf er mwyn ei galluogi i gydymffurfio ag amserlenni RIDDOR. Mae hyn hefyd yn unol â Chanllawiau RIDDOR y Cyngor.

3.8 Cyfrifoldeb pob gweithiwr y Cyngor yw rhoi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau i'w goruchwyliwr/rheolwr a chydweithio â'r goruchwyliwr/rheolwr hwnnw i gwblhau'r Ffurflen HS5(A). Rhaid iddo gydweithredu mewn unrhyw ymchwiliad i'r digwyddiad/damwain.

3.9 Cyfrifoldeb pob gweithiwr y Cyngor, waeth beth fo ei radd neu ei swydd, yw cydweithredu â Charfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiad/damwain cysylltiedig â'r gwaith a chydweithredu mewn unrhyw ymchwiliad i ddigwyddiad/damwain gan y Garfan Iechyd a Diogelwch.

3.10 Mae'r polisi yma a Chanllawiau RIDDOR y Cyngor yn ymwneud â gofynion rhoi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau y mae modd rhoi gwybod amdanyn nhw i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch o dan RIDDOR. Serch hynny, cyfrifoldeb goruchwylwyr a rheolwyr yw rhoi gwybod am **bob** digwyddiad/damwain cysylltiedig â'r gwaith i'r Garfan Iechyd a Diogelwch drwy ddefnyddio HS5(A). Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau nad oes rhaid rhoi gwybod yn eu cylch i'r Gweithgor. Ar gyfer digwyddiadau/damweiniau nad oes angen rhoi gwybod amdanyn nhw, dylai ffurflenni HS5(A) gael eu hanfon at y Garfan Iechyd a Diogelwch cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol – ddylai rheolwyr mo'u cadw nhw er mwyn anfon nifer ohonyn nhw gyda'i gilydd yn hwyrach ymlaen, weithiau fisoedd ar ôl y digwyddiad/y ddamwain.

4. EITHRIADAU

4.1 Yn gyffredinol, dyw rhoi gwybod am farwolaethau ac anafiadau i'r Gweithgor ddim yn ofynnol yn ôl RIDDOR o ganlyniad i'r canlynol:

- triniaeth feddygol neu ddeintyddol ac archwiliadau gan feddyg/deintydd cofrestredig neu o dan oruchwyliaeth meddyg/deintydd;

- gweithredoedd aelod o'r lluoedd arfog tra ei fod ar ddyletswydd;

- damweiniau traffig ffyrdd, ac eithrio damweiniau sy'n cynnwys:
  - Llwytho neu ddadlwytho cerbydau;
  - gwaith ar ochr y ffordd, e.e. gwaith adeiladu neu gynnal a chadw;
  - sylwedd a ddihangodd o gerbyd yng nghanol taith;
  - trên.

5. CANLLAWIAU

5.1 Mae modd cael copïau o Ganllawiau RIDDOR y Cyngor ac o ddogfen HS5(B) – Canllawiau ar Gwblhau Ffurflen Cofnod Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed HS5(A) gan Garfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor.

5.2 Mae rhagor o ganllawiau ar RIDDOR ar gael ar wefan y Gweithgor: www.hse.gov.uk/riddor.

6. COFNODION

6.1 Caiff copïau o bob Ffurflen HS5(A) sy'n berthnasol i weithwyr, ffurflenni adrodd RIDDOR perthnasol a phob adroddiad o ymchwiliad eu blaenyrru i'r Garfan Gwasanaethau Cyflogaeth Adnoddau Dynol gan y Garfan Iechyd a Diogelwch. Bydd y garfan honno yn rhoi'r dogfennau yma yn ffeiliau personol y gweithwyr perthnasol.

6.2 Caiff copïau o bob ffurflen adrodd RIDDOR sy'n berthnasol i weithwyr a phob adroddiad o ymchwiliad eu blaenyrru i uwch reolwyr perthnasol gan y Garfan Iechyd a Diogelwch ar gyfer eu cadw mewn ffeiliau yng ngweithleoedd gweithwyr.

6.3 Bydd y Garfan Iechyd a Diogelwch yn cadw copïau o bob Ffurflen HS5(A) sy'n berthnasol i weithwyr, ffurflenni adrodd RIDDOR perthnasol a phob adroddiad o ymchwiliad.

6.4 Yn ôl RIDDOR, rhaid cadw cofnodion am o leiaf tair blynedd.

6.5 Rhaid i'r Garfan Iechyd a Diogelwch gadw cofnodion o ddigwyddiadau a damweiniau sy'n cynnwys plant ac oedolion ifainc tan iddyn nhw gyrraedd 21 oed, fan lleiaf.

7. CYNGOR

7.1 Mae cyngor ynglŷn â gweithredu'r polisi ar gael gan y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, Trewiliam, CF40 1NY. Ffôn 01443 425531.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg /
You are welcome to communicate with us in Wels

RHESTR WIRIO I REOLWYR

	✓ Wedi'i gyflawni?		
	Dd/B	Do	Na
• Rydych chi wedi darllen y polisi yma, Canllawiau RIDDOR y Cyngor a'r ddogfen 'HS5(B) – Canllawiau ar Gwblhau Ffurflen Cofnod Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed HS5(A)'.			
• Rydych chi'n deall eich cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau cysylltiedig â'r gwaith i Garfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor, o ran llenwi Ffurflen HS5(A) a, phan fo angen, o ran rhoi manylion dros y ffôn yn y lle cyntaf.			
• Rydych chi'n deall eich cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau penodol sy'n digwydd y tu allan i oriau gwaith arferol.			
• Rydych chi wedi rhoi gwybod i'ch staff am eu cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau cysylltiedig â'r gwaith ac o ran cydweithredu â rheolwyr, goruchwylwyr a Charfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor.			
• Rydych chi'n deall eich cyfrifoldeb o ran cydweithredu â Charfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor mewn perthynas â digwyddiadau/damweiniau cysylltiedig â'r gwaith.			
• Rydych chi'n gwybod sut i gael canllawiau ar ofynion ynghylch rhoi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau cysylltiedig â'r gwaith.			
• Oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu bodloni?			

Wedi'i llenwi gan: _____
(Llofnod)

Wedi'i gadarnhau gan: _____
(Llofnod)

Enw: _____
(Llythrennau bras)

Enw: _____
(Llythrennau bras)

Swydd: _____

Swydd: _____

Dyddiad:_____ Dyddiad: _____